# Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher 30 Mai 2012 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr I W Armstrong, B Blakeley, J A Butterfield, J A Davies, M Ll Davies, R J Davies, S A Davies, R L Feeley, H Hilditch-Roberts, T R Hughes, E A Jones, P M Jones, G M Kensler (sylwedydd), M McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, P W Owen, D Owens, T M Parry, A Roberts, D Simmons, J Thompson-Hill, J S Welch, C H Williams, C L Williams a H O Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio (G Boase), Rheolwr Rheoli Datblygiad (Paul Mead), Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Prif Gyfreithiwr – Cyllunio a Phriffyrdd (Susan Cordiner), Arweinydd Tîm (Gwen Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), Cyfieithydd (Catrin Gilkes).
Am ran o'r cyfarfod, y Swyddog Priffyrdd (Mike Parker), Swyddog Cynllunio Ynni Adnewyddadwy (Denise Shaw)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd J M Davies.

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd T R Hughes fuddiant yng nghais 27/2012/0009/PF (Fferm Tan-y-fron, Lôn Tan-y-fron, Eglwyseg, Llangollen).

Datganodd y Cynghorydd E A Jones fuddiant yn eitem 10 (Estyn Fferm Wynt Burbo Bank – Prosiect Seilwaith Mawr).

## 3 EITEMAU BRYS: Dim

## 4 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Enwebwyd y Cynghorydd Dewi Owens gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Stuart Davies.

Enwebwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gan y Cynghorydd Cefyn Williams ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes.

Enwebwyd y Cynghorydd Win Mullen-James gan y Cynghorydd Joan Butterfield ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bob Murray.

Bu'r ymgeiswyr yn annerch y pwyllgor a chynhaliwyd pleidlais gudd.

Ar ôl cylch cyntaf y bleidlais, cafodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei ddileu.

Cynhaliwyd ail bleidlais a arweiniodd at y canlynol;

11 pleidlais i'r Cynghorydd Dewi Owens
10 pleidlais i'r Cynghorydd Win Mullen-James
3 ymataliad ac un bleidlais wag

Yn unol â'r cyfansoddiad, etholwyd y Cynghorydd Dewi Owens yn briodol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## 5 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Enwebwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gan y Cynghorydd Cefyn Williams ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts.

Enwebwyd y Cynghorydd Win Mullen-James gan y Cynghorydd Joan Butterfield ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bob Murray.

Cynhaliwyd pleidlais gudd.

13 pleidlais i'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
11 pleidlais i'r Cynghorydd Win Millen-James
Roedd 1 ymataliad.

Cafodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei ethol yn briodol yn is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn ganlynol.

## 6 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 EBRILL 2012

Cytunwyd bod y rhain yn gofnod gwir.

Yn y man hwn, profwyd y system bleidleisio electronig. Ar ôl canfod nad oedd yn cofrestru pob pleidlais a fwriwyd, penderfynwyd y byddai'r pleidleisio'n cael ei wneud yn y cyfarfod heddiw drwy ddangos dwylo, oni bai bod gofyn am Bleidlais Gofnodedig.

Eglurodd Paul Mead (Rheolwr Rheoli Datblygiad) nad oedd 4 aelod o'r Pwyllgor wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant eto ac na fyddent felly'n gymwys i bleidleisio.

Roedd hyfforddiant i'r Aelodau hynny wedi'i drefnu a bydd yn digwydd cyn y Pwyllgor Cynllunio nesaf.

**7 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio (a gylchredwyd yn flaenorol) yn rhifo ceisiadau a gyflwynwyd ac yn gofyn am benderfyniadau gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio yn ôl yr achos, fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1991 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau canlynol yn ôl yr amodau sydd wedi'u rhifo yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Rhif y Cais:** **02/2012/0241/PF**

**Lleoliad:** **Tir yn (Rhan o ardd) Llys Deri, Bryn Goodman, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Newidiadau yn y mynediad i gerbydau a ganiatawyd o'r blaen o dan God Rhif 02/2011/0167 i wasanaethu'r annedd presennol a'r annedd newydd arfaethedig.

**Rhoddwyd gwybod am y llythyrau ychwanegol canlynol o sylwadau:**

- Mr B Owen (ar ran Mr a Mrs Ayiar, cymdogion)

Gofynnodd y swyddogion am ohirio'r eitem hon er mwyn cadarnhau materion perchenogaeth a lefel y manylion a gyflwynwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd R L Feeley ohirio'r eitem hon a chynnal ymweliad safle cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor cynllunio.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd H Hilditch-Roberts.

Ar ddangos dwylo, derbyniwyd hyn.

***PENDERFYNWYD*** *felly* ***GOHIRIO'R*** *eitem hon*

**Rhif y Cais:** **23/2011/1144/PF**

**Lleoliad:** **Bryn Morfydd, Llanrhaeadr YC, Dinbych**

**Disgrifiad:** Cynllun a safle 42 o letyau gwyliau, derbynfa a llety warden dros dro gan gynnwys seilwaith, tirlunio, parcio a chyfleusterau cysylltiedig.

Rhoddwyd gwybod am wybodaeth ychwanegol gan asiant yr ymgeiswyr.

**Siaradwyr Cyhoeddus:** Matthew Jones (o blaid)

Cyfeiriodd Matthew Jones at hanes Bryn Morfydd a'i oes aur yn ystod y 1960-70au. Newidiodd y ffasiynau ac erbyn hyn mae'r gwesty a'r cwrs golff wedi cau.

Eglurodd Mr Jones ei fod wedi cael ei annog yn ystod trafodaethau gyda swyddogion cynllunio i gadw'r defnydd twristiaeth. Byddai'r cynnig hwn yn manteisio ar y cynnydd mewn "gwyliau cartref" a byddai'n ailddefnyddio rhan o'r cwrs golff segur. Roedd y cynllun ar gyfer adeiladau gorchudd coed, dwysedd isel, na fyddent yn rhai preswyl.

Bu'r Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, yn rhoi cyflwyniad byr ac yn egluro bod Cyfarwyddyd Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych yn annog prosiectau twristiaeth addas. Mae'r safle hwn wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen at ddiben hamdden/twristiaeth. Roedd y swyddogion yn ystyried bod y cynnig hwn yn dderbyniol. Cyfeiriodd at wrthodiadau diweddar ar gyfer lletyau mewn safleoedd eraill ond cynghorodd nad tir amaethyddol gradd uchel oedd hwn a bod y dwysedd arfaethedig o 3.5 i bob hectar yn isel ac yn darparu digon o le amwynder.

Dywedodd y Cynghorydd Joe Welch fod angen adnewyddu prif adeilad Bryn Morfydd a byddai'r datblygiad hwn yn helpu i'w ariannu. Roedd wedi siarad ag etholwyr a oedd wedi codi pryderon am draffig ychwanegol a llygredd golau a'r potensial i ddefnydd preswyl parhaol ddod i'r amlwg. Er ei fod yn cydymdeimlo, roedd y Cynghorydd Welch yn teimlo y byddai'r amodau'n atal defnydd preswyl parhaol, byddai'r traffig yn fwy nag ar hyn o bryd ond yn llai nag i'r gwesty yn ystod ei oes aur. Cyfeiriodd hefyd at sbotoleuadau ar y gwesty a oedd yn fwy pwerus nag unrhyw oleuadau a gynigiwyd ar gyfer y lletyau gwyliau.

Roedd yn teimlo y byddai'r cynnig yn hwb i dwristiaeth ac y byddai hynny o fudd i fusnesau lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones am dystiolaeth nad oedd ansawdd y tir yn ei wneud yn dir amaethyddol gradd uchel.

Cododd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies bryderon am yr amod meddiannu.

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, fod y cwrs golff wedi'i ddychwelyd yn rhannol i dir pori ac, am ei fod wedi'i ddefnyddio at ddiben hamdden, y byddai'n dderbyniol ei ddefnyddio felly eto.

O ran yr amodau meddiannaeth, cytunodd Mr Mead nad oedd yn ddymunol cael llety deuol ar y safle ac roedd yn awyddus i'r warden gael llety ym Mryn Morfydd. Roedd amod 17 yn ymdrin â hyn, ond gellid ei gryfhau.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd B Blakeley ROI CANIATÂD.**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J Butterfield.**

**Ar ddangos dwylo, derbyniwyd hyn.**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**
**Yn amodol ar:**

**Welliant a Awgrymwyd i Amod 4**
Ychwanegu ar ddiwedd yr amod – yn y llinell olaf, "…..ffin fel y cytunwyd arno, a bydd yn darparu ar gyfer ailwampio / adfer y wal garreg ar hyd y briffordd gyhoeddus yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol y safle."

**Newid geiriad Amod 17:**
17. Cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, bydd cynllun a strategaeth fesul cyfnod yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd yr awdurdod yn cytuno arno'n ysgrifenedig. Bydd y strategaeth yn cynnwys manylion amseru'r broses o waredu uned llety dros dro'r warden ymhen 3 blynedd o'r feddiannaeth gyntaf yr uned honno a'r broses o adnewyddu fesul cyfnod adeiladau hen westy Bryn Morfydd. Dim ond y manylion hynny y cytunir arnynt wedyn a fydd yn cael eu gweithredu wedyn.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **27/2012/0009/PF** |
| **Lleoliad:** | **Fferm Tan y Fron, Lôn Tan Y Fron, Eglwyseg, Llangollen** |
| **Disgrifiad:** | Codi adeilad amaethyddol i storio porthiant a chadw da byw. |

Datganodd y Cynghorydd T R Hughes fuddiant yn y cais hwn a gadawodd y Siambr yn ystod y broses o'i ystyried.

Ni chafwyd dadl am yr eitem hon.

**Cynigion:**

Ar ôl cynnig i ROI CANIATÂD, a eiliwyd yn briodol, ar ddangos dwylo derbyniwyd hwn yn unfrydol.

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**
**Yn amodol ar Newid Amod 4**
Dileu "meddiannaeth yr uned gyntaf" a rhoi yn ei le "defnyddio'r adeilad arfaethedig am y tro cyntaf".

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **43/2012/0143/TP** |
| **Lleoliad:** | **20c Bryntirion Drive, Prestatyn** |
| **Disgrifiad:** | Torri 2 Sycamorwydden rhif T41 a T43 a chwtogi 25 y cant ar gorun 2 Sycamorwydden rhif T40 a T42 ar y cynllun sy'n atodiad i Orchymyn Cadw Coed Bwrdeistref Rhuddlan (Parc Coetir, Prestatyn) Rhif 3 1985 ac ailblannu'r ardal â rhywogaethau Prydeinig, h.y. Bedw Arian. |

Roedd y Cynghorydd J Thompson-Hill yn cefnogi'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu torri'r coed hyn ar seiliau esthetig nid diogelwch. Roedd yn teimlo y byddai'n effeithio'n negyddol ar yr ardal.

Atebodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, nad oes angen caniatâd i waredu Coeden a Gadwyd os yw'n marw neu'n afiach. Yn yr achos hwn, mae angen caniatâd. Dywedodd fod adroddiad coedyddiaeth yn cefnogi'r farn y byddai topio neu gwympo yn gadael mwy o oleuni i mewn i'r ardd i helpu i goed eraill ffynnu.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd J Butterfield roi caniatâd.**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Peter Owen**

**Ar ddangos dwylo, derbyniwyd hyn:**
**15 pleidlais o blaid**
**3 pleidlais yn erbyn**
**0 ymataliad**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**

**Rhif y Cais: 45/2011/1048/PF**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir yn Ystâd Fasnachu Cefndy, Ffordd Derwen a Ffordd Cefndy, Y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Datblygu 1.35ha o dir drwy godi 24 o anheddau gan gynnwys tirlunio, lle agored a mynediad a chodi 1,299 metr sgwâr o uned fasnachol gan gynnwys parcio, gwasanaethau a mynediad. |

Cadarnhaodd y swyddogion mai'r lle agored y gellir ei ddefnyddio yw 1582 metr sgwâr nid 929 metr sgwâr fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad.

Bu'r aelodau'n holi'r swyddogion am y canlynol:

- cyfnodau'r gwaith priffyrdd a gynigir
- y rheswm dros ollwng dŵr i Byllau Brickfield
- a allai'r refeniw am ganiatáu gollwng y dŵr ariannu gwaith ar Doriad y Rhyl
- sut bydd yr unedau tai fforddiadwy'n cael eu diogelu
- a oedd asesiad llifogydd wedi'i gynnal

Atebodd y Swyddog Priffyrdd, M Parker y byddai Bond yn ofynnol i sicrhau bod cyllid ar gael i adeiladu mynediad i gerbydau.

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, fod angen draeniad cynaliadwy a bod Pwll Brickfield ar gael. Byddai'r Isadran Eiddo'n trafod hawliau ac yn gofyn am daliad a allai gael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau yn Nhoriad y Rhyl.

Roedd y Cynghorydd Butterfield yn disgwyl y byddai'n rhaid trafod hynny mewn Fforwm Aelodau Lleol.

Dywedodd Paul Mead hefyd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon y byddai'r bwnd arfaethedig yn gwarchod yr ardal rhag llifogydd. Mae'r cyllid Tai Fforddiadwy a gynigir ar gyfer 7 uned tai a bydd yn destun Cytundeb A106.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Parry at Ystâd Parc Tyn Llan yn Llandyrnog lle'r oedd Bond Priffyrdd wedi'i lunio ond roedd y Cyngor Cymuned wedi cael anawsterau yn cael y gwaith wedi'i wneud ar ôl i'r datblygwr fynd yn fethdalwr.

Roedd y Cynghorydd B Blakeley yn poeni y gallai dŵr budr gael ei arllwys i Bwll Brickfield neu Doriad y Rhyl.

Eglurodd Paul Mead fod Dŵr Cymru'n fodlon bod digon o le i ymdopi â'r garthffosiaeth. Cytunodd y Swyddog Priffyrdd Mike Parker â'r Cynghorydd Parry am broblemau yn yr ystâd yn ei ward ef ond dywedodd eu bod wedi dysgu gwersi gan Fond Llandyrnog. Bydd y Swyddogion Priffyrdd yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl, ond bydd rhaid i'r cwrs treulio olaf aros tan fod yr holl gyfleustodau wedi'u gosod i bob tŷ newydd.

Ailadroddodd Paul Mead fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn fodlon ond bod angen adroddiad canlyniadau llifogydd. Byddai’r amddiffynfeydd arfordirol yn helpu i atal llifogydd i weddill y Rhyl.

Dywedodd G Boase, y Pennaeth Cynllunio, y byddai’r Tai Fforddiadwy’n cael eu hadeiladu gyntaf ac atgoffodd y Pwyllgor o record dda Sir Ddinbych o ddarparu Tai Fforddiadwy. Byddai pryderon pellach am Byllau Brickfield yn cael eu codi gyda’r adrannau perthnasol.

Parhaodd y Cynghorwyr i godi pryderon am ddatblygwyr yn methu â darparu Tai Fforddiadwy, ond sicrhawyd y swyddogion na fydd hyn yn broblem yn yr achos hwn.

**Cynigiodd y Cynghorydd M McCarroll roi caniatâd**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Armstrong**

**Ar ddangos dwylo, derbyniwyd hyn yn unfrydol**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**
**Yn amodol ar:**

Gwblhau rhwymedigaeth o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ymhen 12 mis o benderfyniad y Pwyllgor hwn i sicrhau:

a) Darparu 7 o unedau tai fforddiadwy a chadw’r rhain at ddibenion fforddiadwy
b) Talu swm gohiriedig am ddarparu lle agored oddi ar y safle ac ardaloedd chwarae i blant.
c) Darparu a chynnal a chadw ardaloedd chwarae ar y safle.
d) Cadw a chynnal a chadw mur llifogydd fel sy’n cael ei ddangos yn y cynlluniau a gymeradwywyd.

Ni fyddai Tystysgrif y Penderfyniad yn cael ei rhyddhau cyn cwblhau’r rhwymedigaeth gyfreithiol. Pe na fyddai rhwymedigaeth felly’n cael ei bodloni cyn pen 12 mis o benderfyniad y Pwyllgor hwn, byddai’r cais yn cael ei ailgyflwyno i’r Pwyllgor Cyllunio a’i benderfynu’n unol â’r Polisïau a fyddai’n berthnasol ar yr adeg honno, pe byddai amgylchiadau’n newid yn sylweddol.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **46/2012/0333/PC** |
| **Lleoliad:** | **Cae Rhif 6105, Fferm Bryntirion, Rhuallt, Llanelwy** |
| **Disgrifiad:** | Parhau i ddefnyddio'r tir fel ardal chwarae ategol i'r prif annedd a chadw'r tŷ pen coeden (cais ôl-weithredol). |

Cylchredwyd cynllun ychwanegol yn dangos graddau'r cwrtil preswyl. .

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, gefndir y cais hwn. Mae'r eiddo yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd ac mae tŷ pen coeden wedi'i godi mewn ardal nad oedd yn rhan o'r cwrtil preswyl. Roedd Cydbwyllgor Cynghori'r AHNE wedi gwrthwynebu'r datblygiad hwn.

Bu'r Aelodau'n holi ynghylch cyfansoddiad Cydbwyllgor Cynghori'r AHNE ac, er bod rhai Cynghorwyr yn dweud eu bod yn aelodau o'r pwyllgor, roedd yn cynnwys nifer o gyrff â diddordeb yng nghefn gwlad.

Holodd y Cynghorydd Alice Jones ai fferm waith oedd yr eiddo.

Cyfeiriodd Paul Mead at y cynllun ychwanegol a gylchredwyd. Nid oedd yr eiddo'n fawr mewn termau ffermio. Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi i gadw garejis, cytiau, clwydi a chamerâu teledu cylch cyfyng a chynnydd yn y cwrtil preswyl.

Adeiladwyd y tŷ pen coeden 70m i ffwrdd o'r annedd ond roedd digon o le yn yr ardd ddomestig ar ei gyfer.

Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd Paul Mead y gellid symud y tŷ pen coeden i'r ardd heb ganiatâd pellach, petai'r cais yn cael ei wrthod.

Rhoddodd G Boase, y Pennaeth Cynllunio, gyfarwyddyd clir y dylid gwrthod y datblygiad hwn, am ei fod y tu allan i uned yr annedd a'r tu mewn i'r AHNE.

**Cafodd y cynnig ei WRTHOD a'i eilio'n briodol.**

**O fwrw pleidlais, derbyniwyd hyn**
**3 ymataliad ac 1 bleidlais yn erbyn**

**GWRTHODWYD CANIATÂD FELLY**

**Rhif y Cais:** **47/2012/0368/PC**

**Lleoliad:** **Bryntirion, Rhuallt, Llanelwy**

**Disgrifiad:** Codi adeilad i gadw tanc storio dŵr (cais ôl-weithredol).

Eglurodd y Prif Swyddog cynllunio, Ian Weaver, fod y tanc dŵr hwn i wasanaethu'r sied wyna gerllaw. Nid oedd yn tynnu sylw'n weledol.

**Cynigion:**
**Cynigiodd y Cynghorydd B Blakeley ROI CANIATÂD**
**Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Stuart Davies**

**Ar ddangos dwylo, derbyniwyd hyn**
**(Ymatalodd y Cynghorwyr Rhys Hughes a Merfyn Parry)**

**RHODDWYD CANIATÂD FELLY**

**8 APÊL CYNLLUNIO: CARTREF PRESWYL DEWI SANT, RHODFA'R DWYRAIN, Y RHYL**

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad, Paul Mead, gefndir yr achos hwn. Roedd y Pwyllgor wedi gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ym mis Medi 2011.

Cyflwynwyd apêl bellach a bydd yn cael ei gwrando mewn gwrandawiad anffurfiol ddydd Mawrth 19 Mehefin 2012.

Gan fod y swyddog wedi argymell rhoi caniatâd, roedd cais yn cael ei wneud i gynrychiolydd o'r pwyllgor Cynllunio roi tystiolaeth yn y Gwrandawiad yn unol â pharagraff 9.3 o'r Protocol Apeliadau Cynllunio a Chynnwys Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Swyddogion nad oedd yn bosibl i'r pwyllgor ailystyried y cais ac, er ei fod yn wrandawiad "anffurfiol", y byddai'n cael ei gynnal mewn modd ffurfiol gan Arolygydd yr apêl. Awgrymwyd y byddai'n ddoeth petai Aelod profiadol yn mynd.

Cynigiwyd i'r Cynghorwyr Ian Armstrong a David Simmons neu Win Mullen-James fynd ar ran y Pwyllgor Cynllunio.
Derbyniwyd hyn.

**9 PROSIECTAU SEILWAITH MAWR**
**ADRODDIAD DIWEDDARU**

Roedd yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

Eglurodd Denise Shaw (Swyddog Ynni Adnewyddadwy) fod Deddf Lleoliaeth 2011 yn dileu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Erbyn hyn, yr Arolygiaeth Gynllunio sydd â'r pŵer i wneud penderfyniadau am orsafoedd pŵer mwy o faint, ffermydd gwynt ar y môr a llinellau uwchben foltedd uchel.

Ar ôl nifer o gwestiynau gan yr Aelodau, cynigiodd Ms Shaw gysylltu â hwy i drafod gwahanol faterion.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

**10 PROSIECT SEILWAITH MAWR ESTYNIAD FFERM WYNT BURBO BANK**

(Datganodd y Cynghorydd Alice Jones fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd y Siambr tra bod yr eitem yn cael ei hystyried).

Cyflwynodd Denise Shaw (Swyddog Ynni Adnewyddadwy) yr eitem hon ac eglurodd fod angen ymateb i'r ymgynghoriad a gafwyd a gofynnodd am farn y Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau:

- Sut byddai Cymru'n elwa ar incwm a gynhyrchir ar y môr, yn nyfroedd Lloegr.
  (Eglurodd Denise Shaw nad oedd hwn yn rhywbeth y gallai'r awdurdod sôn amdano, ond gallai cymunedau wneud cais am elw).
- Mae Ceblau Trydan yn dod i'r lan ym Mhrestatyn, sut bydd y ceblau'n cyrraedd Llanelwy; beth oedd yr union lwybr; a oedd pwynt mynediad gwell (e.e. Harbwr y Foryd); pwy a ddiffiniodd y pwynt mynediad.
  (Dywedodd Denise Shaw y bydd y ceblau'n mynd dan y ddaear, ond nad oedd yr union lwybr wedi'i ddiffinio eto. Byddai'r pwynt mynediad yn cael ei fireinio gan Asesiad Amgylcheddol o ddaeareg gwely'r môr er mwyn nodi'r llwybr gorau).
- Pa is-orsaf a fyddai'n cael ei defnyddio ym Mharc Busnes Llanelwy; beth am gysylltu â'r Grid Cenedlaethol ym Mhrestatyn i gwtogi ar aflonyddwch.
  (Dywedodd Denise Shaw fod is-orsaf newydd am gael ei chodi ger y datblygiad presennol ar gyfer cynnyrch Gwynt y Môr, yn Llanelwy/Glascoed Road).

***PENDERFYNWYD:*** *bod yr Aelodau'n cytuno i'r ymateb i'r Ymgynghoriad fel y'i disgrifir yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a chytunodd i gyflwyno hwn i DONG Energy fel ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol er mwyn cwrdd â'r amserlen a gyfarwyddwyd gan y datblygwr.*

**11 PROTOCOL AR GYFER HYFFORDDIANT AELODAU - FERSIWN 2**

Cyflwynwyd: Adroddiad yn disgrifio'r newidiadau arfaethedig yn y Protocol ar gyfer Hyfforddiant Aelodau ac yn gofyn am gymeradwyo'r newidiadau.

Roedd y newidiadau'n cynnwys cydnabyddiaeth am bresenoldeb rheolaidd yn y Pwyllgor ac am waith yn amddiffyn apeliadau cynllunio.

Yn dilyn cwestiynau gan yr Aelodau am lefel y cymorth a roir i Aelodau sy'n mynd i apeliadau, talwyd clod i'r swyddogion am yr hyfforddiant diweddar a roddwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r newidiadau a awgrymwyd yn y Protocol ar gyfer Hyfforddiant Aelodau.*

**12 CYNLLUN DIRPRWYO WEDI'I DDIWEDDARU - FERSIWN 4**

Cyflwynwyd: Mân welliannau yn y Cynllun Dirprwyo gan gynnwys materion cysylltiedig â Phrosiectau Seilwaith Mawr. Roedd y diweddariad hefyd yn newid y mecanwaith ar gyfer adolygu gwyriadau sylweddol neu benderfyniadau lle'r oedd risg o ddyfarnu costau yn erbyn y Cyngor mewn apêl, her gyfreithiol neu ymchwiliad Ombwdsmon. Byddai'r penderfyniadau hyn yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cynllunio, nid y Cyngor llawn.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo wedi'i ddiweddaru (Fersiwn 4).*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 p.m.